

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

Bwriad y Prosiect Ymchwil a Datblygiad i Daliadau Uniongyrchol a gynhaliwyd gan Ofal Solfach a'i Bartneriaid oedd rhoi prawf i weld a fyddai'r darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol roi Taliadau Uniongyrchol i unigolion, er mwyn eu galluogi i brynu gofal a chymorth yn annibynnol, yn arwain at ddarparu gwasanaeth gwell ac arbedion effeithlonrwydd. Y model darparu y dewiswyd ymchwilio iddo oedd Cydweithrediad Gofal Lleoledig, gydag elusen Gofal Solfach yn darparu rhai gwasanaethau gofal heb fod yn rhai personol. Lleoliad y Prosiect oedd pentref Solfach yng ngorllewin Cymru, a'r awdurdod lleol oedd Cyngor Sir Penfro.

Roedd y gwersi allweddol a ddysgwyd drwy'r broses ymchwil fel a ganlyn:

- Mae cyfradd bresennol Taliadau Uniongyrchol yn Sir Benfro – ac ar draws Cymru – yn rhy isel i alluogi gofalwyr i newid i weithio i Gydweithrediadau Gofal.
- Mae'r rheoliadau sy'n rheoli darparu gofal yn atal unigolion neu Gydweithrediadau Gofal rhag cael digon o gleientiaid i wneud cydweithrediad yn hyfyw.
- Mae unigolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn dod yn Gyflogwyr, ac mae llawer yn amharod i ymgymryd â chyfrifoldeb o'r fath a'r weinyddiaeth gymhleth sy'n ofynnol.
- Nid yw Cyngor Sir Penfro ar hyn o bryd yn talu am y gwasanaethau presennol, sydd am ddim i gymunedau.
- Mae amodau'r fframwaith presennol ar gyfer darparwyr gofal yn llesteirio Cydweithrediadau Gofal rhag cael arnynt, ac felly yn cyfyngu eu siâr o'r farchnad i gleientiaid sy'n defnyddio'r Taliadau Uniongyrchol yn unig.
- Mae lefel y wybodaeth yn isel ynghylch Taliadau Uniongyrchol a'r dewisiadau y maent yn eu cynnig, ymhlith defnyddwyr posibl ac ymysg Gweithwyr Cymdeithasol hefyd.
- Mae yna broblem capasiti yn y sector gofal yn gyffredinol, gyda phrinder gofalwyr ar gael i ddarparu'r gofal sy'n ofynnol ar gyfer trigolion Sir Benfro.

Fodd bynnag, mae yna newidiadau cadarnhaol yn digwydd yn Sir Benfro megis:

- Tair swydd yn cael eu cyllido gan LEADER a'r Gronfa Gofal Integredig fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau gyda'r cyflenwad o weithwyr gofal a hefyd gyda sefydlu Cydweithrediadau Gofal.
- Cyngor Sir Penfro yn trafod gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i adolygu'r gofynion rheoliadol.
- Cynnydd yng nghyfradd y Taliadau Uniongyrchol ar gyfer 2019/20.

Am hynny, er nad yw'r Prosiect wedi llwyddo i hwyluso sefydlu Cydweithrediad Gofal, mae Gofal Solfach yn awr mewn sefyllfa well i gynorthwyo unigolion sydd ag awydd i ddilyn llwybr y Taliadau Uniongyrchol, a hefyd i gefnogi sefydliadau sy'n anelu at sefydlu Cydweithrediadau Gofal yn y sir.

Argymhelliad yr adroddiad hwn yw i Gyngor Sir Penfro ystyried gwneud newidiadau – dros gyfnod prawf - ar Benrhyn Dewi, fyddai'n mynd i'r afael â nifer o'r rhwystrau a ganfuwyd, ac yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer sefydlu Cydweithrediad Gofal hyfyw i ddarparu gofal. Mae hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar:

- Arolygiaeth Gofal Cymru a Chyngor Sir Penfro yn dod i gytundeb;
- Cynnydd yng nghyfradd Taliadau Uniongyrchol i'r lefel a argymhellwyd gan Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig (UKHCA) o £18.93 yr awr;
- Newid strwythur gofynion cymhwysra a gofynion tendro fframwaith y darparwyr gofal; a
- Gwneud rhai o wasanaethau Gofal Solfach yn gymwys ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

I gloi, gallai Cydweithrediadau Gofal – yn amodol ar newidiadau rheoliadol Arolygiaeth Gofal Cymru a chefnogaeth i'r swyddi fydd yn cael eu cyllido gan LEADER a'r Gronfa Gofal Integredig – ynghyd â chynnydd yng nghyfradd y Taliadau Uniongyrchol, newidiadau caffael a thalu am wasanaethau Gofal Solfach, gyflawni newidiadau mewn darparu gwasanaethau ac arbedion cost posibl i Gyngor Sir Penfro.